# PWYLLGOR ARCHWILIO CYMUNEDAU

Cofnodion cyfarfod o'r Pwyllgor Archwilio Cymunedau a gynhaliwyd yn Ystafell Bwyllgora 1a, Neuadd y Sir, Rhuthun, Dydd Iau, 10 Medi 2015 am 9.30 am.

## YN BRESENNOL

Y Cynghorwyr Brian Blakeley, Bill Cowie, Huw Hilditch-Roberts (Cadeirydd), Martyn Holland, Rhys Hughes (Is-Gadeirydd), Win Mullen-James, Bob Murray, Anton Sampson a/ac Cefyn Williams.

Aelodau Cyfetholedig: - D. Houghton, Dr D. Marjoram, J. Piper a G. Williams.

Aelodau Arweiniol, y Cynghr. R.L. Feeley, H.Ll. Jones, J. Thompson-Hill ac E.W. Williams wedi mynychu ar gais y Pwyllgor.

Y Cynghorwyr J.R. Bartley, M.Ll. Davies, G.M. Kensler, T.M. Parry, A. Roberts, J.S. Welch, H.O. Williams wedi mynychu fel arsyllwyr.

## HEFYD YN BRESENNOL

Cyfarwyddwr Corfforaethol: Uchelgais Economaidd a Chymunedol (RM), Cyfarwyddwr Corfforaethol: Cymunedau (NS), Pennaeth Gwasanaethau Cyfreithiol, Adnoddau Dynol a Democrataidd (GW), Pennaeth Cwsmeriaid a Chefnogi Addysg (JW), Pennaeth Dros Dro Cyfathrebu, Marchnata a Hamdden (SH), Prif Swyddog Cyllid (RW), Swyddog Arweiniol: Pobl ifanc, Diogelu a Datblygu Lles (RE), Rheolwr Cludiant Teithwyr (PD), Rheolwr Gwasanaeth: Datblygu Strategol (GG), Cyfarwyddwr Adnoddau CLlLC (JR), Cydlynydd Archwilio (RE) a Swyddog Gweinyddol (CW).

Croesawodd y Cadeirydd y Cynghorydd A. Sampson fel aelod newydd o'r Pwyllgor Archwilio Cymunedau.

## 1 YMDDIHEURIADAU

Derbyniwyd ymddiheuriadau am absenoldeb oddi wrth y Cynghorwr(wyr) P.A. Evans, C.L. Williams a G. Greenland (Aelod Cyfetholedig).

## 2 DATGAN CYSYLLTIAD

Datganodd y Cynghorwyr H. Hilditch-Roberts, T.R. Hughes, H.O. Williams a Mr J. Piper gysylltiad personol ag Eitem 3 ar y Rhaglen, "Materion Brys - Cludiant Ysgol" oherwydd bod aelodau o'r teulu yn cael cludiant i'r ysgol.

## 3 MATERION BRYS FEL Y CYTUNWYD GAN Y CADEIRYDD

Yn unol â gofynion Adran 100B(4) Deddf Llywodraeth Leol 1972, nododd y Cadeirydd ei fwriad i gynnwys y mater canlynol i'w drafod oherwydd bod angen rhoi sylw brys iddo o dan ddarpariaethau Rhan II:-

1. **Gweithrediad Cychwynnol y Polisi Cymhwyster Cludiant o’r Cartref i’r Ysgol:-**

Mewn ymateb i'r nifer o ymholiadau a chwynion a godwyd gydag Aelodau Etholedig lleol, yn ystod gwyliau haf yr ysgolion, ac ers dechrau’r flwyddyn ysgol newydd, roedd y Grŵp Cadeiryddion ac Is-gadeiryddion Archwilio wedi dweud wrth y Pwyllgor i ystyried y mater hwn fel eitem busnes brys yn y cyfarfod.

Pwysleisiodd y Cadeirydd na fyddai'r Pwyllgor yn edrych ar achosion unigol neu fannau codi penodol, ond yn canolbwyntio ar yr egwyddor y tu ôl i'r polisi a'i weithrediad cychwynnol.

Cyflwynodd y Pennaeth Cwsmeriaid a Chymorth Addysg yr adroddiad ac amlinellodd y cefndir i weithredu'r polisi. Eglurodd bod y Gwasanaeth wedi cyflwyno’r polisi cludiant ysgol fel dewis arbedion posibl o fis Medi 2016 i Weithdy Rhyddid a Hyblygrwydd yn ystod 2014.

Roedd Aelodau Etholedig, wrth sylweddoli faint o arbedion posibl sy'n gysylltiedig â'r gyllideb hon, yn y rhanbarth o £300K, wedi cyfarwyddo swyddogion i weithio tuag at weithredu'r polisi o fis Medi, 2015 gyda'r bwriad o ddiogelu’r Gwasanaeth Addysg ei hun rhag toriadau llym yn 2015/16. Roedd y penderfyniad hwn wedi golygu bod angen bodloni rhai terfynau amser tyn er mwyn cyhoeddi'r newidiadau polisi arfaethedig o fewn y gofynion statudol o 11 mis cyn ei weithredu.

Cyn i'r Cabinet gymeradwyo'r ‘Polisi Cymhwyster Cludiant o'r Cartref i’r Ysgol’ ar 30 Medi, 2014, roedd llythyr wedi ei anfon at rieni a oedd yn debygol o gael eu heffeithio i dynnu eu sylw at y posibilrwydd o gyflwyno polisi o'r fath. Roedd y polisi drafft wedi ei ystyried gan y Pwyllgor Archwilio Cymunedau ar 11 Medi, 2014 a gan y Cyngor Sir ar 9 Medi, 2014. Yn dilyn penderfyniad y Cabinet a chyhoeddi’r polisi ym mis Hydref, 2014 anfonwyd copi i bob ysgol. Ym mis Mai, 2015 cafodd yr holl rieni a oedd wedi gwneud cais am gludiant ysgol ar gyfer eu plant lythyr yn rhoi gwybod iddynt am y penderfyniad i weithredu’r polisi yn llym o fis Medi 2015, a dywedwyd y byddai cyswllt pellach â nhw gyda rhestr o fannau codi dynodedig ar draws y sir. Roedd nifer uchel o rieni wedi ffonio'r Cyngor am y polisi newydd ac er eu bod yn cydnabod y byddai ei weithredu yn achosi anghyfleustra iddynt roedd nifer wedi gwneud sylwadau eu bod wedi synnu o gael ‘gwasanaeth o ddrws i ddrws’ i ddechrau.

Pwysleisiodd Swyddogion fod yr Aelodau wedi penderfynu bod y polisi yn cael ei weithredu ar gyfer plant ysgol uwchradd yn y Sir yn unig. Roedd cludiant ysgol yng Nghymru yn cael ei lywodraethu gan y Mesur Teithio gan Ddysgwyr (Cymru) a oedd yn nodi i bob pwrpas fod gan Awdurdod Lleol ddyletswydd i wneud trefniadau teithio rhesymol i hwyluso taith plentyn i ysgol uwchradd os oeddent yn byw dair milltir neu fwy o'r ysgol addas agosaf. Nid oedd y Mesur yn nodi ei bod yn ddyletswydd ar yr awdurdod lleol i ddarparu cludiant o gartref y plentyn i'r ysgol addas agosaf. Cyfrifoldeb y rhieni/gwarcheidwaid oedd gwneud yn siŵr bod y plentyn yn cyrraedd y man codi. I ddangos y pwynt hwn nododd y Pennaeth Gwasanaethau Cyfreithiol achos a aeth i'r Uchel Lys (RV Devon County Council exparte George 1988) lle roedd penderfyniad y Cyngor i beidio â darparu cludiant

ysgol i blentyn 8 oed a oedd yn byw mewn ardal wledig, 2.8 milltir o'r ysgol ac a oedd yn gorfod teithio i'r ysgol ar hyd ffordd gul heb olau, wedi ei gadarnhau.

Roedd y rhestr o fannau dynodedig arfaethedig wedi ei dosbarthu i Gynghorwyr ar 3 Gorffennaf ac wedi'i thrafod mewn sesiwn briffio'r Cyngor ar 7 Gorffennaf, 2015, ac yn dilyn newidiadau a awgrymwyd yn y cyfarfod hwnnw anfonwyd llythyrau at bob rhiant yn ystod yr wythnos yn dechrau 10 Awst i roi gwybod iddynt am y man casglu ar gyfer eu plentyn (plant). Roedd nifer digon uchel o ymholiadau wedi dod i law yn dilyn yr hysbysiad hwn ac roedd swyddogion wedi gweithio gyda rhieni i geisio datrys problemau. Dim ond pan ddechreuodd y flwyddyn ysgol newydd y daeth yn amlwg bod rhai plant wedi bod yn defnyddio cludiant i'r ysgol er nad oedd eu rhieni/gwarcheidwaid erioed wedi gwneud cais am gludiant yn y lle cyntaf. Oherwydd hyn, ni chysylltwyd â hwy cyn gweithredu'r polisi gan nad oeddent wedi eu rhestru ar y gronfa ddata cludiant ysgol. Roedd hyn wedi achosi ymholiadau ychwanegol.

Ers gweithredu'r polisi roedd rhai rhieni eisoes wedi gweithio gyda'i gilydd i gomisiynu eu gwasanaeth tacsi eu hunain i gael y plant i'r man codi dynodedig, tra bod eraill yn cymryd eu tro i fynd â'r plant i'r man codi.

Wrth ymateb i gwestiynau'r swyddogion, gwnaeth Aelodau:-

- amlinellu dyletswydd y Cyngor i addysgu plant oedran ysgol statudol yn y Sir a chyfrifoldebau rhieni o ran sicrhau bod eu plant yn gallu cael mynediad i'r addysg a gynigir;
- cadarnhau bod yr holl fannau codi newydd wedi bod yn destun asesiad risg iechyd a diogelwch cyn cael eu hystyried yn addas. Byddai unrhyw fannau codi newydd posibl yn y dyfodol yn destun yr un lefel o brofion asesu risg;
- dangos y diffiniad o 'lwybrau peryglus' a sut y mae ei weithredu i ddisgyblion sy'n byw llai na 3 milltir o'r ysgol addas agosaf yn wahanol ar gyfer plant sy'n byw mwy na 3 milltir o'u hysgol addas agosaf ond llai na 3 milltir o'u man codi dynodedig ar gyfer cludiant ysgol;
- cadarnhau bod cymeradwyaeth y polisi wedi bod drwy'r broses ddemocrataidd yn sesiynau agored y gwahanol bwyllgorau, yr unig agwedd a oedd wedi mynd drwy broses Briffio'r Cyngor oedd rhannu mannau codi dynodedig arfaethedig ar gyfer y diben o geisio barn a safbwyntiau aelodau lleol arnynt. Er bod y polisi wedi ei gymeradwyo gan y Cabinet, yn unol â'i bwerau gweithredol, roedd toriad y gyllideb ei hun wedi ei gymeradwyo gan y Cyngor Sir pan wnaeth osod cyllideb y Cyngor ar gyfer 2015/16;
- rhoi gwybod bod y tâl am gludiant ysgol rhatach i ysgol o'u dewis, nad oedd yn ysgol addas agosaf iddynt, yn £50 y tymor. Byddai plentyn yn cael caniatâd i ddefnyddio teithio rhatach ar fws os oedd seddi 'gwag' ar fws yn unig. Er bod rhai bysiau fel pe bai ganddynt seddau dros ben ar rai dyddiau, barnwyd bod y seddi hynny ar gael i ddisgyblion sy'n gymwys i gael cludiant ysgol am ddim sy'n mynychu eu hysgol addas agosaf. Os nad oedd y plant hynny yn defnyddio'r cludiant a ddarperir ar bob adeg ni allai eu 'seddi' gael eu dyrannu i deithwyr rhatach;
- dweud na allai teithio rhatach gael ei gynnig i ddisgyblion a all fod eisiau ei ddefnyddio nes bod y disgyblion i gyd wedi ymgartrefu yn eu hysgolion, ac roedd yr

Awdurdod yn gwybod yn union faint o blant oedd yn defnyddio'r cludiant am ddim a gynigir iddynt i'w hysgol addas agosaf;

- cadarnhau na allai unrhyw fanteision gael eu rhagweld o gynnig dewis optio i mewn / optio allan o gynllun cludiant ysgol am ddim i'r ysgol addas agosaf, gan y byddai'r mwyafrif yn optio i mewn hyd yn oed os byddent dim ond yn defnyddio’r cludiant sydd ar gael ar yr adegau prin y byddent ei angen;
- cynghori bod y defnydd o gludiant am ddim yn cael ei adolygu'n rheolaidd a bod dulliau cludiant yn cael eu haddasu os oes angen. Fodd bynnag, ni allai'r Cyngor gomisiynu bysiau mwy o faint ar sail y nifer o deithwyr rhatach ar lwybr, gallai hynny gael ei wneud yn seiliedig ar nifer y disgyblion cymwys sy'n mynychu eu hysgol addas agosaf yn unig ac sydd felly â hawl i gludiant am ddim;
- cadarnhau mai’r cyfnod rhybudd o dynnu allan ar gyfer teithio rhatach yw un tymor ysgol;
- dweud mai’r ‘ysgol addas agosaf’ fyddai naill ai ysgol gymunedol, ysgol sy’n darparu addysg drwy gyfrwng y Gymraeg neu ysgol ffydd, yn dibynnu ar ddewis rhieni;
- cadarnhau lle bo hynny'n briodol bod y Cyngor yn cyfuno contractau gwasanaeth ac ysgolion i gyfuno llwythi (ar gyfer dysgwyr uwchradd yn unig) ac nad oedd unrhyw bryderon diogelwch gyda'r trefniant hwn;
- sicrhau’r aelodau na fyddai staff wedi dweud wrth unrhyw riant neu warcheidwad y dylai plentyn gerdded i'r man codi dynodedig, byddent wedi dweud wrthynt mai cyfrifoldeb y rhiant / gwarcheidwad oedd sicrhau eu bod yn cyrraedd y man codi dynodedig i gael mynediad i’r cludiant am ddim;
- dweud p'un a yw'r polisi yn cael ei weithredu ym mis Medi 2015 neu 2016, y byddai’r materion a ddaw i'r amlwg yn ystod ei weithrediad yn debyg iawn;
- dweud wrth Aelodau pe bai'r Cyngor yn awyddus i droi'n ôl at y polisi blaenorol y gellir gwneud hynny, ond byddai angen i’r arbedion £300K a fyddai'n cael eu gwireddu gan ei weithredu ddod o rywle arall yng nghyllideb y Gwasanaeth Addysg;
- cadarnhau bod swyddogion yn edrych ar bob ymholiad neu gŵyn unigol a dderbyniwyd ac yn gweithio gyda rhieni i geisio eu datrys. Roeddent hyd yn oed yn ceisio hwyluso darparu gwasanaeth tacsi ar gyfer grwpiau o rieni a oedd yn barod i dalu am y gwasanaeth er mwyn sicrhau bod eu plant yn cyrraedd yn brydlon ac yn ddiogel yn eu mannau codi dynodedig;
- egluro bod pob achos unigol yn cael ei farnu ôl ei rinweddau/amgylchiadau ei hun. Os bydd rhieni unigol o'r farn nad oedd y penderfyniad i beidio â darparu cludiant o’r cartref i’r ysgol am ddim ar gyfer eu plentyn (plant) wedi ei gyfiawnhau roedd ganddynt hawl i apelio i'r Pennaeth Addysg. Os byddai’r apêl yn cael ei gwrthod gallent ddefnyddio proses gwynion y Cyngor, mynd at Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru neu yn y pen draw gallent ofyn am Adolygiad Barnwrol;
- rhoi sicrwydd i Aelodau bod pob ymholiad/cwyn yn cael ei ystyried ar sail unigol a bod pob cam posibl yn cael ei gymryd gan swyddogion i sicrhau ateb boddhaol.

Ar ddiwedd y drafodaeth diolchodd y Cadeirydd i'r Aelodau a'r swyddogion am drafodaeth agored a didwyll. Wrth grynhoi gofynnodd fod yr Aelodau'n cael dolenni i'r llwybr o drafodaeth/penderfyniadau mewn perthynas â chymeradwyo a gweithredu'r polisi. Roedd yn croesawu parodrwydd a pha mor agored oedd y

Gwasanaeth i weithio gyda rhieni/gwarcheidwaid gyda golwg ar ddelio â phob ymholiad unigol yn ôl ei rinweddau ei hun ac i ddatrys materion heb eu datrys. Awgrymodd hefyd y gallai fod yn ddefnyddiol pe gellid cyfleu gwybodaeth am y polisi teithio rhatach i'r holl aelodau etholedig er mwyn iddynt allu cyfeirio ati pe baent yn derbyn ymholiadau gan breswylwyr, a phe gellid darparu darlun ar gyfer y rheol 2/3 milltir gan ei fod yn ymwneud â llwybr 'peryglus'.

***PENDERFYNWYD –** yn amodol ar y sylwadau uchod, fod y Pwyllgor yn: -*

*(a) derbyn y wybodaeth a gafwyd o ran gweithrediad cychwynnol y Polisi Cymhwyster Cludiant o'r Cartref i'r Ysgol o 2015, a:*
*(b) gofyn am gyflwyno adroddiad pellach i'r Pwyllgor ym mis Tachwedd, 2015 i adolygu gweithrediad y Polisi a manylu ar y mesurau a gymerwyd i ddatrys materion a godwyd yn ystod cyfnod cychwynnol ei weithredu.*

Cytunodd y Pwyllgor fod Eitem 7 ar y Rhaglen "Adroddiad Cynnydd Proffilio Grŵp Cymunedol" yn cael ei ystyried yn y fan hon yn y cyfarfod.

## 4 COFNODION

Cyflwynwyd Cofnodion cyfarfod y Pwyllgor Archwilio Cymunedau a gynhaliwyd ddydd Iau 9 Gorffennaf, 2015.

***PENDERFYNWYD** – yn amodol ar yr uchod, derbyn a chymeradwyo'r cofnodion fel cofnod cywir.*

## 5 CYNLLUNIO ARIANNOL

Roedd adroddiad ar y cyd gan y Prif Swyddog Cyllid, a oedd yn tynnu sylw at rai o'r penderfyniadau ariannu a gymerwyd gan Lywodraeth Cymru yn y flwyddyn ddiwethaf ac yn amlinellu'r effaith ar gynllunio ariannol y Cyngor, wedi'i ddosbarthu gyda'r papurau ar gyfer y cyfarfod.

Amlygodd yr Aelod Arweiniol dros Gyllid, y Cynllun Corfforaethol a Pherfformiad, rai o benderfyniadau cyllido Llywodraeth Cymru yn y flwyddyn ddiwethaf a'u heffaith ar gynllunio ariannol y Cyngor.  Croesawodd y Cadeirydd Gyfarwyddwr Adnoddau Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru (CLlLC), Mr Jon Rae, i'r cyfarfod ar gyfer y drafodaeth ar yr adroddiad.  Eglurodd fod gwahoddiad wedi'i estyn i Weinidog Gwasanaethau Cyhoeddus Llywodraeth Cymru i fynychu'r cyfarfod ar gyfer y drafodaeth hon, fodd bynnag, roedd wedi gwrthod ac awgrymodd fod cynrychiolydd o CLlLC yn cael ei wahodd i fod yn bresennol.  Roedd enghreifftiau o newidiadau heb eu cynllunio, boed hynny'n gadarnhaol neu'n negyddol, sy'n effeithio ar y gweithgaredd a ariennir gan grant wedi'u cynnwys yn Atodiad 1.

Eglurwyd, yn ystod adegau caled, roedd yr anawsterau cynllunio ariannol a wynebwyd gan Sir Ddinbych wedi deillio o lefel yr ansicrwydd sydd ynghlwm wrth amcangyfrifon Grant Cynnal Refeniw dangosol Llywodraeth Cymru (LlC) ac roedd pa mor hwyr oedd rhai hysbysiadau cyllid grant wedi effeithio'n ddifrifol ar eu gallu i gynllunio a rheoli eu cyllideb mor effeithiol ag y byddent yn dymuno.  Nid oedd y

broblem yn unigryw i Sir Ddinbych, roedd pryderon tebyg wedi eu codi gan holl Awdurdodau Lleol Cymru.

Gallai rhoi gwybod yn hwyr am ddyraniadau grant fod â goblygiadau pellgyrhaeddol ar Awdurdodau Lleol, yn dibynnu ar ddiben y grant, y gofynion archwilio / monitro sydd ynghlwm wrtho, neu a oedd cyflogi aelodau staff yn dibynnu ar wybod a fyddai'r ffrwd ariannu hwnnw yn parhau h.y. y Grant Cofnodi Symud Trwyddedu Anifeiliaid a restrir yn yr Atodiad i'r adroddiad. Roedd nifer o grantiau yn y blynyddoedd diwethaf wedi eu dyfarnu o fewn wythnosau i ddiwedd y flwyddyn ariannol gyda gofyniad bod yr arian yn cael ei wario erbyn diwedd y flwyddyn ariannol, nid oedd amserlen mor fyr ar gyfer tendro a chaffael gwaith ac ati yn cyfateb i ddefnydd effeithiol ac effeithlon o adnoddau gwerthfawr.

Roedd anghysonderau'r drefn archwilio sy'n llywodraethu grantiau amrywiol hefyd yn bryder gan nad oedd gwerth rhai o'r grantiau yn gydlynol â'r gofynion archwilio a nodir ar eu cyfer. Roedd Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru ar sawl achlysur wedi cyflwyno sylwadau i Lywodraeth Cymru, drwy'r Cyngor Partneriaeth ar gyfer Is-grŵp Cyllid Cymru, ar y sefyllfa anodd sy'n wynebu Awdurdodau Lleol yng Nghymru o ganlyniad i roi gwybod yn hwyr am y Grant Cynnal Refeniw ac arian grant. Amcangyfrifwyd y gallai gweinyddiaeth y cyllid grant i gyd gyfateb i tua 10% o'i werth gwirioneddol a oedd i bob pwrpas yn golygu bod un rhan o ddeg o'r arian grant yn cael ei wario ar gostau gweinyddu.

Roedd yr Is-grŵp Cyllid, ar 9 Gorffennaf, 2015, wedi ailadroddodd ei bryderon i Lywodraeth Cymru. Roedd Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru yn parhau i lobïo Llywodraeth Cymru ar y sail bod trefnau grant mewn rhannau eraill o'r DU wedi eu llacio'n sylweddol tra yng Nghymru roedd dros 50 o gynlluniau grant yn parhau i fod yn rhan o system ganolog, e.e. roedd yr Alban wedi diddymu pob un ond dau o'i grantiau a ddyrannwyd yn flynyddol, ac yn Lloegr roedd dwsin neu fwy o grantiau yn parhau i fodoli.

Yn ddiweddar roedd Gweinidogion Llywodraeth Cymru wedi dangos parodrwydd i gydgrynhoi nifer y grantiau a ddyfarnwyd ganddynt. Er bod hwn yn gam cadarnhaol roedd yn cario risg fod cyfuno yn dod law yn llaw â gostyngiadau llym mewn gwerth ariannol grantiau yn y dyfodol.

O ran amseriad y setliad nesaf, roedd y rhagolygon ar gyfer 2016/17 yn ymddangos i fod yn dynn iawn gan ei fod yn awr yn ymddangos yn debygol na fyddai Canghellor y DU yn gwneud ei ddatganiad Adolygiad Cynhwysfawr o Wariant tan 25 Tachwedd. Byddai hyn yn achosi oedi o ran cyhoeddiad LlC ar ei gyllideb tan o leiaf y Nadolig neu'r flwyddyn newydd gyda'r cyhoeddiad Grant Cynnal Refeniw terfynol yn debygol o fod yn gynnar yn 2016, tua thri mis yn hwyrach nag arfer. Byddai hyn yn effeithio ar osod y gyllideb ALl ar gyfer y flwyddyn ariannol nesaf ymhellach.

Eglurwyd y byddai'n ddefnyddiol i wahanol lefelau o lywodraethau weithio'n agos gyda'i gilydd i adeiladu lefel uchel o ymddiriedaeth a pharch gyda golwg ar ddad-bridiannu nifer o'r grantiau, a'u cynnwys yn setliad cyffredinol y Grant Cynnal Refeniw gyda sicrwydd disgwyliedig y byddai'r arian yn cael ei ddefnyddio ar gyfer eu dibenion a fwriadwyd. Byddai hefyd yn ddefnyddiol iawn pe gallai Cymru

fabwysiadu model fframwaith canlyniadau cenedlaethol, yn debyg i'r un a ddefnyddir yn yr Alban, lle roedd y llywodraeth genedlaethol yn caniatáu i ALlau osod eu blaenoriaethau eu hunain a defnyddio'r Grant Cynnal Refeniw ar gyfer y diben o'u cyflawni cyn belled â'u bod yn cyfrannu tuag at y gwaith o gyflawni'r canlyniadau cenedlaethol maes o law.

Roedd Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru ar hyn o bryd yn gweithio ar ddylanwadu ar faniffesto'r pleidiau gwleidyddol cyn etholiadau Cynulliad Cymru'r flwyddyn nesaf ar y sail nad yw datganoli yn dod i ben gyda datganoli pŵer gan Lywodraeth y DU i Lywodraeth Cymru, ond ei fod hefyd yn cynnwys 'datganoli dwbl' pwerau a hyblygrwydd i Awdurdodau Lleol ac i Gynghorau Tref a Chymuned.

Roedd yr Aelodau'n awyddus bod sylwadau yn cael eu gwneud i bob Aelod Cynulliad lleol ar y gost o weinyddu grantiau unigol o gymharu â'r canlyniadau gwirioneddol a gyflawnwyd o'u dyfarnu, a'r ffaith y gallai gwell gwerth am arian gael ei gyflawni pe gallai gwerth y grantiau hyn gael ei gynnwys yn y Grant Cynnal Refeniw.

Yn dilyn trafodaeth fanwl gwnaeth y Pwyllgor:-

***BENDERFYNU:***-

*(a) bod Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru yn cyfleu sylwadau'r Pwyllgor uchod i Lywodraeth Cymru drwy'r Cyngor Partneriaeth ar gyfer Is-grŵp Cyllid Cymru; a*
*(b) bod llythyr yn cael ei anfon at bob Aelod Cynulliad lleol yn cofrestru pryderon y Pwyllgor fel a amlinellir uchod.*

## 6 GWASANAETH CEFNOGI BYW'N ANNIBYNNOL

Roedd copi o adroddiad gan y Pennaeth Cefnogaeth Gymunedol, a oedd yn monitro effeithiolrwydd y Gwasanaeth Cefnogi Byw'n Annibynnol newydd, wedi ei ddosbarthu gyda'r papurau ar gyfer y cyfarfod.

Cyflwynodd yr Aelod Arweiniol dros Ofal Cymdeithasol (Gwasanaethau Oedolion a Phlant) yr adroddiad, a ddosbarthwyd yn flaenorol, a oedd yn rhoi trosolwg o ganfyddiadau'r gwerthusiad strategol diweddar o'r gwasanaeth dan arweiniad Cefnogi Pobl. Roedd cynigion ar gyfer y gwasanaeth yn y dyfodol hefyd yn cael eu hamlinellu yn yr adroddiad.

Cydnabu'r Aelod Arweiniol, er bod y cynnydd o ran symud yr hen wasanaeth warden i mewn i'r Gwasanaeth Cefnogi Byw'n Annibynnol newydd wedi bod yn araf, roedd yn symud ymlaen yn awr a byddai maes o law yn darparu'r math o wasanaeth oedd Llywodraeth Cymru am weld Cynghorau yn eu darparu.

Dywedodd y Rheolwr Gwasanaeth: Datblygu Strategol wrth yr Aelodau fod rhai meysydd o fewn y prosiect a oedd angen sylw brys, sef:-

- gwireddu gwerth am arian gan y gwasanaeth, trwy hyrwyddo ei fod ar gael ac annog mwy o bobl i'w ddefnyddio.

-  codi ymwybyddiaeth o'r gwasanaeth a'r ffaith ei fod yn wasanaeth a oedd ar gael i holl breswylwyr y Sir a allai elwa ohono, heb ei gyfyngu gan fod y gwasanaeth blaenorol i bobl sy'n byw mewn llety gwarchod.
-  cydlynu gwell o'r gwasanaeth gyda gwasanaethau Iechyd a Gofal Cymdeithasol eraill h.y. Ailalluogi, Pwynt Mynediad Sengl.

Amlinellodd y Rheolwr Gwasanaeth y tair lefel o gefnogaeth y mae'r Gwasanaeth Cefnogi Byw'n Annibynnol yn ei ddarparu ar gyfer defnyddwyr gwasanaeth. Dywedodd hefyd fod y Cynllun Gweithredu Cefnogi Byw'n Annibynnol yn mynd i'r afael â nifer o gamau gweithredu a nodir yng Nghynllun Heneiddio'n Dda y Cyngor, a gymeradwywyd gan y Cyngor Sir bythefnos ynghynt.

Dywedwyd wrth yr Aelodau bod y cyllid grant Cefnogi Pobl ar gyfer Sir Ddinbych oddeutu £6 miliwn, a thra roedd disgwyl i'r swm ar gyfer y flwyddyn nesaf fod yn is na'r hyn a ddyfarnwyd ar gyfer y flwyddyn hon roedd yn dal i gyfateb i swm sylweddol o arian.   Arian oedd angen ei wario'n ddoeth a'i dargedu i gefnogi'r rhai mwyaf diamddiffyn yn y gymuned.  Teimlai'r Aelodau ei bod yn bwysig felly bod Aelodau Cynulliad lleol yn cael gwybod am yr effaith bosibl ar breswylwyr diamddiffyn o ganlyniad i doriadau i'r cyllid grant penodol hwn.

Gofynnodd yr Aelodau hefyd fod adroddiad cynnydd yn cael ei gyflwyno iddynt ym mis Rhagfyr, 2015 a ddylai gynnwys y Cynllun Gweithredu Cefnogi Byw'n Annibynnol, manylion am yr ymgyrch codi ymwybyddiaeth y tu mewn a'r tu allan i'r Cyngor, mentrau eraill i wireddu gwerth am arian a nifer y rhai sy'n derbyn y Gwasanaeth Cefnogi Byw'n Annibynnol ym mhob ward y Cyngor.

Ar ddiwedd y drafodaeth:-

***PENDERFYNWYD*** *– bod y Pwyllgor yn:-*

*(a)	derbyn yr adroddiad ac, yn amodol ar y sylwadau uchod, yn cefnogi'r dull a ddefnyddir i sefydlu a mewnosod y Gwasanaeth Cefnogi Byw'n Annibynnol yn Sir Ddinbych, a*
*(b)	bod adroddiad cynnydd pellach, gan gynnwys y Cynllun Gweithredu Cefnogi Byw'n Annibynnol, yn cael ei gyflwyno i'r Pwyllgor yn ei gyfarfod ym mis Rhagfyr 2015.*

## 7	ADRODDIAD CYNNYDD PROFFILIO GRWPIAU CYMUNEDOL

Roedd adroddiad gan y Swyddog Arweiniol: Pobl Ifanc, Diogelu a Datblygu'r Gweithlu, oedd yn rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf am fapio a phroffilio grwpiau cymunedol a themâu allweddol sy'n dod i'r amlwg, wedi ei ddosbarthu gyda'r papurau ar gyfer y cyfarfod.

Cyflwynodd yr Aelod Arweiniol ar gyfer Datblygu Cymunedol yr adroddiad ac amlinellodd y themâu a oedd yn dod i'r amlwg o'r gwaith mapio.  Dywedodd y Pennaeth Cyfathrebu a Hamdden Dros Dro a'r Swyddog Arweiniol: Pobl Ifanc, Diogelu a Datblygu'r Gweithlu, o'r tua 1000 o grwpiau cymunedol sy'n bodoli yn Sir Ddinbych fod tua 300 wedi eu proffilio hyd yn hyn.

Byddai'r gwaith proffilio yn helpu'r Cyngor i gynllunio ar gyfer anghenion plant a phobl ifanc yn y dyfodol, yn enwedig gweithgareddau y tu allan i oriau ysgol. Roedd y camau nesaf yn y prosiect wedi eu nodi yn yr adroddiad. Gan ymateb i gwestiynau a phryderon yr Aelodau, dywedodd y swyddogion: -

- Roedd y gwaith proffilio ym mhob ardal yn cynnwys cydraddoldeb ac amrywiaeth sefydliadau/grwpiau, a oedd yn cwmpasu pob math o anableddau boed yn gorfforol neu'n anableddau dysgu. Roedd y Gwasanaeth hefyd yn gweithio'n agos gyda'r Adran Gwasanaethau Cymdeithasol ar faterion megis cynhwysiad, cynlluniau gwyliau ac ynghylch a ellid defnyddio'r Pecyn Gwaith Anabledd ar gyfer gwaith ehangach y Gwasanaeth Ieuenctid;
- Er bod rhai themâu cychwynnol yn dod i'r amlwg yn y cyfnod hwn, yn enwedig o ran hygyrchedd i unigolion anabl i grwpiau cymunedol, gyda dim ond tua 30% o'r gwaith proffilio wedi'i gwblhau rhagwelwyd unwaith yr oedd oddeutu 80% o'r proffilio wedi'i gwblhau, gellid tynnu rhai casgliadau pendant ar nifer y grwpiau sy'n hygyrch i'r anabl. Ar y pwynt hwn rhagwelwyd y gellid gofyn i'r sector gwirfoddol helpu i gefnogi'r maes hwn yn y dyfodol;
- Cadarnhawyd y dylai'r broses fapio fwy neu lai fod wedi'i chwblhau erbyn diwedd y flwyddyn ariannol gyfredol;
- Gyda golwg ar annog pobl ifanc i ymgysylltu â grwpiau cymunedol/gweithgaredd, a gyda grwpiau oedran gwahanol, roedd sefydlu 'gwasanaeth ieuenctid rhithwir' yn cael ei gynnig, fel ffordd o rannu gwybodaeth a chyfathrebu gwybodaeth am y grwpiau amrywiol sydd ar gael yn y Sir;
- Roeddent yn ymwybodol o brinder darpariaeth benodol ar gyfer rhai 12 i 25 oed yn ardal Prestatyn. Fodd bynnag, roedd angen gwaith pellach i benderfynu a oedd pobl ifanc yn y grŵp oedran hwn yn ymgysylltu â grwpiau cymunedol eraill ag ystod oedran ehangach yn yr ardal honno, ac a oeddent yn cymryd rhan mewn mwy nag un o'r grwpiau hyn. Roedd y Bartneriaeth Plant a Phobl Ifanc wedi amlygu yn ddiweddar materion iechyd meddwl lefel isel o fewn y grŵp oedran penodol hwn;
- Cadarnhawyd eu bod yn gweithio'n agos gyda Menter Iaith a'r Urdd gyda'r bwriad o gynyddu argaeledd lleoliadau cymdeithasol lle gallai disgyblion ddefnyddio'r Gymraeg tu allan i leoliad addysgol ffurfiol. Roedd Clybiau Ieuenctid y Sir ei hun yn annog y defnydd o'r Gymraeg yn eu sesiynau ac roedd Grŵp Strategol y Gymraeg mewn Addysg (WESG) hefyd yn edrych ar gyfleoedd posibl ar gyfer gwneud hyn. Dywedodd yr Aelod Arweiniol ei fod wedi cysylltu â Chomisiynydd y Gymraeg yn ddiweddar mewn perthynas â'r mater hwn.

Cytunodd y Swyddog Arweiniol i hyrwyddo'r angen i bob grŵp fod mor gynhwysol â phosibl ac yn hygyrch i bobl ag anableddau. Gan fod y rhan fwyaf o'r grwpiau yn grwpiau cymunedol a gaiff eu rhedeg gan wirfoddolwyr byddai angen iddynt gael eu perswadio a'u dylanwadu i fod yn gynhwysol i bawb. Teimlai'r Aelodau ei bod yn bwysig bod angen i grwpiau cymunedol gydweithio'n agos i ategu ei gilydd ac i sicrhau nad oes unrhyw grŵp oedran penodol neu elfen o'r gymuned yn teimlo wedi'u hymddieithrio neu'n ynysig.

Llongyfarchodd yr Aelodau y swyddogion am eu cynnydd gyda'r gwaith proffilio ar draws y Sir, yn enwedig gyda throseddwyr ifanc wrth eu hadsefydlu a'u troi oddi wrth fywyd o droseddu. Byddai'r gwaith hwn yn ddi-os yn talu ar ei ganfed yn y dyfodol.

Yn dilyn trafodaeth bellach:-

***PENDERFYNWYD*** *– fod y Pwyllgor, yn amodol ar y sylwadau uchod yn:-*

*(a) derbyn y wybodaeth a ddarparwyd; a*
*(b) chefnogi parhau â'r gwaith i fapio a phroffilio'r grwpiau cymunedol ar draws y sir.*

Holodd y Cynghorydd M Ll Davies pam fod dogfennau'r Cyngor yn ymddangos yn ddiweddar i fod wedi dychwelyd i ddefnyddio'r wyddor Saesneg ar gyfer is-baragraffau ac nid y wyddor Gymraeg. Roedd o'r farn bod hyn yn groes i Bolisi Iaith y Cyngor. Dywedodd y Cydlynydd Archwilio y byddai'n edrych i mewn i'r mater ac yn adrodd yn ôl i'r Pwyllgor maes o law.

## 8 RHAGLEN WAITH ARCHWILIO

Roedd copi o adroddiad gan y Cydlynydd Archwilio, a oedd yn gofyn i'r Pwyllgor adolygu a chytuno ar ei raglen gwaith i'r dyfodol ac oedd yn rhoi diweddariad ar faterion perthnasol, wedi ei ddosbarthu gyda'r papurau ar gyfer y cyfarfod.

Roedd copi o 'ffurflen o gynnig gan Aelod' wedi'i gynnwys yn Atodiad 2. Mewn ymateb i gwestiwn gan y Cynghorydd R.M. Murray, eglurwyd y byddai ffurflenni cynnig wedi'u llenwi yn gofyn am gynnwys eitemau busnes ar raglen y Pwyllgor yn cael eu hystyried. Eglurodd y Cydlynydd Archwilio y byddai cymorth i lenwi ffurflenni ar gael os oes angen. Roedd Rhaglen Gwaith i'r Dyfodol y Cabinet wedi'i chynnwys yn Atodiad 3 ac roedd tabl yn rhoi crynodeb o'r penderfyniadau Pwyllgor diweddar ac a oedd yn hysbysu'r Aelodau ynglŷn â'r cynnydd gyda'u gweithrediad, wedi'i gynnwys yn Atodiad 4.

Rhoddodd y Pwyllgor ystyriaeth i ddrafft eu Rhaglen Gwaith i'r Dyfodol ar gyfer cyfarfodydd y dyfodol, Atodiad 1, a chytunwyd ar y newidiadau a'r ychwanegiadau canlynol:-

5 Tachwedd, 2015:- Cytunodd y Pwyllgor fod yr Aelodau Arweiniol, Cynghorwyr B.A. Smith, D.I. Smith ac E.W. Williams, yn cael eu gwahodd i fynychu'r cyfarfod.

Mewn ymateb i gais gan yr Aelod Arweiniol roedd cyflwyno'r Strategaeth Tai drafft wedi ei ohirio tan gyfarfod mis Tachwedd. Byddai hyn yn galluogi'r Aelod Arweiniol a'r swyddogion i ymgorffori'r adborth a'r sylwadau a gafwyd ar y Strategaeth ddrafft mewn gweithdy staff tai a gynhaliwyd ddiwedd mis Awst i mewn i'r Strategaeth.

Dywedodd y Cydlynydd Archwilio wrth y Pwyllgor fod adroddiad gwybodaeth yn ymwneud â'r Gwasanaeth Ailalluogi wedi ei ddosbarthu gyda'r Briff Gwybodaeth ar gyfer y cyfarfod.

***PENDERFYNWYD*** *- yn amodol ar y newidiadau a chytundebau uchod, cymeradwyo'r Rhaglen Gwaith i'r Dyfodol fel y nodir yn Atodiad 1 i'r adroddiad.*

## 9 ADBORTH GAN GYNRYCHIOLWYR Y PWYLLGOR

Nid oedd dim wedi dod i law.

Daeth y cyfarfod i ben am 12.55pm.